**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Senedd Cymru (Cyfrifon Swyddogion Canlyniadau) 2021**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Llywodraeth Leol. Nid yw'r offeryn hwn yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn ac felly nid yw'n ofynnol ei osod gerbron y Senedd. Mae'n ofynnol ei wneud (ei lofnodi), ei ddwyn i rym a'i gyhoeddi.

**Datganiad y Gweinidog/Dirprwy Weinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Senedd Cymru (Cyfrifon Swyddogion Canlyniadau) 2021.

Julie James AS, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
19 March 2021

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

1.1. Bydd Rheoliadau Senedd Cymru (Cyfrifon Swyddogion Canlyniadau) 2021 yn nodi sut y dylai swyddogion canlyniadau etholaethol a rhanbarthol baratoi a chyflwyno eu cyfrifon i Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag etholiad Senedd Cymru 2021. Mae'r Rheoliadau Cyfrifon hefyd yn pennu'r amserlen ar gyfer cyflwyno'r cyfrifon.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1. Mae'r rheoliadau hyn yn cyd-fynd â Gorchymyn Senedd Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2021.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1. Mae erthygl 23(10) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 (fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2020) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau o ran yr adeg y mae cyfrifon i'w cyflwyno i Weinidogion Cymru, y modd y mae'r cyfrifon hynny i'w dychwelyd ac ar ba ffurf. Nid yw'r pŵer hwn i'w arfer drwy offeryn statudol ac nid yw'n ddarostyngedig i unrhyw un o weithdrefnau'r Senedd.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1. Mae cyllid ar gyfer etholiadau'r Senedd ar gael o dan Orchymyn Senedd Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2021 ("y Gorchymyn"). Mae'r Gorchymyn yn nodi'r uchafsymiau sy'n daladwy gan Lywodraeth Cymru i Swyddogion Canlyniadau mewn perthynas â chynnal etholiad y Senedd yn 2021 ac unrhyw is-etholiad i'r Senedd a allai godi cyn 2026.

4.2. Cyfrifir y symiau sy'n daladwy ar gyfer etholiadau Senedd 2021 yn seiliedig ar fformiwla y cytunwyd arni gan Lywodraeth Cymru.

4.3. Mae'n ofynnol i bob Swyddog Canlyniadau gwblhau cyfres o gyfrifon ar gyfer pob etholaeth a rhanbarth y maent yn gyfrifol amdanynt. Rhaid dychwelyd y cyfrifon a'r dogfennau ategol i Lywodraeth Cymru i graffu arnynt o fewn chwe mis i ddyddiad yr etholiad, gan ddechrau ar ddyddiad yr etholiad y mae'r cyfrifon yn cyfeirio ato.

4.4. Gall Swyddogion Canlyniadau ofyn am gyllid pellach drwy gyflwyno esboniad llawn a dadansoddiad o’r costau i Lywodraeth Cymru i'w hystyried. Bydd pob cais am arian ychwanegol yn cael ei ystyried fesul achos yn ôl yr wybodaeth a ddarperir.

4.5. Pan ddarperir cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, bydd angen i'r Swyddog Canlyniadau ddarparu set o gyfrifon etholiadol a dogfennau ategol wedi'u harchwilio'n llawn o fewn 4 mis i ddyddiad yr etholiad.

## 5. Ymgynghori

5.1. Ymgynghorwyd â Swyddogion Etholiadol a'r Comisiwn Etholiadol ar y ddeddfwriaeth ddrafft am gyfnod o bythefnos. Rhoddwyd llythyr iddynt yn crynhoi'r polisi a'r tablau sy’n nodi'r symiau y mae hawl i’w hadennill ar gyfer pob etholaeth.

5.2. Cafwyd pum ymateb gydag ymatebion yn cefnogi’r symiau y darperir ar eu cyfer. Holodd un Swyddog Canlyniadau am ddarparu gwariant eithriadol ychwanegol yn ymwneud â defnyddio lleoliadau amgen. Cododd gweinyddwr ymholiadau hefyd ynghylch sut y cyfrifwyd y fformiwla a ddefnyddiwyd.

5.3. Diwygiwyd y Nodyn Cyfarwyddyd sy’n cyd-fynd â'r Rheoliadau yn dilyn yr ymgynghoriad i roi eglurder a chyngor pellach ar yr ymholiadau a godwyd gan y rhai yr ymgynghorwyd â hwy.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1. Yn unol â’r Cod Asesiadau Effaith Rheoleiddiol, ni chynhaliwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Rheoliadau hyn gan nad ydynt yn cael eu gwneud drwy Offeryn Statudol.

6.2. Mae'r Rheoliadau'n gwneud diwygiadau technegol nad ydynt yn cael unrhyw effaith fawr ar bolisi.